**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 5 MEDI 2024 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Nicola Jones (Cadeirydd), Philip Davies, Meinir James, Elfyn Williams, Janet Knott, Rheinallt Jones, Shan Rees, Viv Davies, Jenny Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Carys Thomas ac Eifion Jones.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 11fed Gorffennaf 2024.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **Cŵn rhydd wedi eu hadrodd yn ardal Pentrepoeth / Idole –** Derbyniwyd cadarnhad gan y Cyngor Sir bod ymweliadau wedi eu cynnal, ond ni welwyd unrhyw faterion. Bydd y mater yn cael ei fonitro a bydd achosion pellach yn cael eu hadrodd i'r Cyngor Sir. Nodwyd hefyd fod fan goch wedi ei pharcio ar ymyl y ffordd yn yr ardal, gan arwain at osod rhybudd gan y Cyngor Sir. Bydd hyn hefyd yn cael ei fonitro.
4. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
5. **FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
6. **Materion Gorfodaeth Cynllunio caeau yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
7. **Biniau Sbwriel Cyhoeddus yn y Cymuned –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
8. **Grid Cenedlaethol** – **Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog –** Derbyniodd y Cyngor nodiadau o gyfarfodydd a gynhaliwyd gyda'r AS lleol y Fonesig Nia Griffith ar 3ydd Awst a'r Grid Cenedlaethol ar 12fed Awst. Roedd y Grid Cenedlaethol wedi cadarnhau y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei ohirio. Bydd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach. Bydd y Clerc yn gofyn am ddiweddariadau gan y Grid Cenedlaethol ynghyd â chaniatâd i gyhoeddi nodiadau'r ddau gyfarfod. Bydd gwahoddiad hefyd yn cael ei roi i Aelodau Cymunedol y Senedd i gwrdd â'r Cyngor i drafod y materion hyn. Cafwyd cadarnhad o'r Cyngor Sir bod gollyngiad wedi gael ei gytuno i bob Cynghorydd Cyngor Cymuned

Llandyfaelog Siarad a Phleidleisio ar faterion yn ymwneud â'r Is-orsaf a dau brosiect cysylltidau. Nodwyd.

9. **Achwilio Cymru –** Derbyniodd y Cyngor gadarnhad o nodyn credyd o £280.00 tuag at gost Archwiliad 2021-22. Y ffi taladwy felly oedd £515.00. Cymeradwywyd talu y swm hwn.
10. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Derbyniwyd cynlluniau ar gyfer newidiadau arfaethedig ym Mancycapel i ostwng y cyfyngiad cyflymder i 40mya. Y gobaith oedd dod â hyn i rym erbyn diwedd mis Medi. Mynegwyd pryder nad oedd y cynigion yn cynnwys parth dim goddiweddyd, bydd hyn yn cael ei godi gyda'r Cyngor Sir a gofynnir am gefnogaeth gan Aelodau Cymunedol Senedd Cymru a'r Senedd.
11. **Arwydd adborth cyflymder yng Nghwmffrwd –** Derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod 2 arwydd yn cael eu newid yng Nghwmffrwd ac wedi eu harchebu gan y Cyngor Sir. Nodwyd.
12. **Goleuadau troedffordd yn Frondeg** – Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau cost datgysylltu'r goleuadau o £100. Nodwyd hyn a gofynnir am gadarnhad os oedd rheidrwydd Iechyd a Diogelwch i'r goleuadau aros mewn lle.
13. **Cadwyn Cadeirydd y Cyngor** – Parhaodd y Clerc i geisio prisiau bathodynnau enw newydd ar gyfer y Gadwyn.
14. **Torri coed yng Nghroesyceiliog - FC 29 4/1 a 4/2 –** Nodwyd bod y Cyngor Sir yn gobeithio cynnal ymweliad safle yn ystod yr wythnos yn dechrau 26ain Awst. Disgwylid adroddiad o'r ymweliad.
15. **Cynigion cyfyngiadau aros ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
16. **PL/04973** - **1-4 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** - Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
17. **Arwydd Llangynnwr yn Heol Bolahaul –** Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau bod yr arwydd wedi ei leoli lle'r oedd digon o ymyl ar gael. Byddid yn edrych i mewn i adleoli posib. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru** – Adroddiad Cynhadledd Arfer Arloesol. Nodwyd.
2. **Un Llais Cymru** – Cyflwyniad gan Archwilio Cymru. Nodwyd.
3. **Un Llais Cymru** – Dyddiadau hyfforddiant Gorffennaf, Awst a Medi. Nodwyd.
4. **Un Llais Cymru** – Cynhadledd genedlaethol, 16eg Hydref 2024. Nodwyd.
5. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys –** Cylchlythyr. Nodwyd.
6. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Gwybodaeth am y broses ar gyfer archwilio CDLl Sir Gaerfyrddin 2018-2033. Nodwyd.
7. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Diweddariad Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
8. **Un Llais Cymru** – Cyfarfod Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin, 7fed Hydref 2024.
9. **Un Llais Cymru** – Bwletin newyddion. Nodwyd.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd dros dro yr U2211 Glanyfferi, o'i chyffordd ger Trelymsi am bellter o 646 metr i gyfeiriad dwyreiniol cyffredinol rhwng dydd Iau 24ain Hydref 2024 a dydd Gwener 25ain Hydref. Nodwyd.

11. **Un Llais Cymru –** Nodyn briffio ar bresenoldeb Cynghorwyr a'r rheol 6 mis. Nodwyd.
12. **Un Llais Cymru –** Canllaw Diwrnod VE 80. Bydd y mater yn cael ei ystyried ymhellach ar gyfer Digwyddiad Cymunedol 2025.
13. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda –** Digwyddiadau 'Fy Iechyd, Fy newis – arddangosfa iechyd a lles gofal Sylfaenol a Chymunedol. Nodwyd.
14. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cadarnhad taliad o 1/3 o praesept 2024-25, sef £9,106.67. Nodwyd.
15. **Banc Barclays –** Datganiadau. Nodwyd.
16. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd dros dro'r C2074 Ger Fferm Plasgwyn, Croesyceiliog o'i chyffordd gyda'r A484 am bellter o 150 metr i gyfeiriad y Dwyrain (SA32 8DU) o ddydd Mawrth 8fed Hydref 2024 rhwng oriau 18:00 a 06-00 dros nos. Nodwyd.
17. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Gwahoddiad am enwebiad am Aelod Cyngor Cymuned o'r Pwyllgor Safonau. Nodwyd.
18. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd dros dro'r U2231 Llansaint (SA17 5JB) o'i chyffordd gyda'r C2119 am bellter o 300 metr i gyfeiriad y De Orllewin ddydd Llun 11fed Tachwedd 2024 rhwng 09:30 a 15:30 . Nodwyd.
19. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
20. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys** – Gwybodaeth am Ddigwyddiadau Ymgysylltu ym mis Medi. Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

1. **Diffibrilwyr**
   Cadarnhaodd y Clerc pryniant padiau ar gyfer Defibrillator Fferm Constant o Defib Warehouse gyda chost o (£47.95 a £9.59 TAW). Cymeradwywyd hyn.

2. **Arosfan Bysiau Bancycapel**
   Nodwyd bod cwteri'r arosfan wedi'u difrodi eto. Roedd hyn wedi'i adrodd i'r Atgyweiriwr.

**8. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio yn misoedd Gorffennaf ac Awst gyda chost o £616.00 y mis yn cael eu gytuno. Cymeradwywyd hefyd prynu pren i atgyweirio Pwmp Llandyfaelog a Phlanwyr Tir Gof gyda chost o £78.00. Cytunwyd hefyd taliadau torri gwair ar gyfer misoedd Gorffennaf ac Awst ar gost o £308.00 y mis hefyd.

**9. Digwyddiadau Cymunedol 2024**

1. **Cystadleuaeth Gardd a Bwgan Brain**
   Nododd y Cadeirydd lwyddiant y cystadlaethau. Diolchwyd i feirniad y gystadleuaeth Elin Forsyth a'r ffotograffydd Karen Armitage.

   Nodwyd a chymeradwywyd costau fel a ganlyn:
   - Tlysau £69.00

- Gwobrau £125.00
- Bwffe a costau arall £146.00 a £40.18

2. **Sul y Cofio**
   Trafodwyd trefniadau Sul y Cofio am y 10fed Tachwedd. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi cysylltu â'r Eglwys, Cangen Cydweli y Lleng Brydeinig Frenhinol, a'r Bugler. Roedd nawr yn aros am gadarnhad o'r trefniadau.

**10. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

1. **Cerebral Palsy Cymru** – Cytunwyd rhodd o £25.00.
2. **Menter Cwm Gwendraeth Elli** – Cytunwyd rhodd o £50.00.

**11. Cyfrifon**

**a) Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

| 1. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfon Davies | Cyflog Gorffennaf a costau | £722.43 | £26.00<br>£7.00 | £755.43 | £298.60 | | £456.83 |

2. **Defib Warehouse** **£57.54** Pad Defib (£47.95 and £9.59 VAT) (gweler eitem 7.1)
3. **Archwilio Cymru** **£515.00** Ffi Archwilio 2021-22 (gweler eitem 5.9)
4. **Michael Leefe** **£616.00** Torri gwair Gorffennaf – Awst (gweler eitem 8)
5. **Michael Leefe** **£1,310.00** Atgyweiriwr Gorffennaf – Awst (gweler eitem 8)
6. **Cyng Nicola Jones** **£146.00** Bwffe Cystadleuaeth Ardd
7. **Rob Ashcroft** **£25.00** Gwobr Cystadleuaeth Gardd Fawr
8. **Ray Amner** **£25.00** Gwobr Cystadleuaeth Gardd mewn blychau
9. **JM Williams** **£25.00** Gwobr Cystadleuaeth Gardd Fach
10. **Helen Gravelle** **£50.00** Gwobr Cystadleuaeth Gardd Gyffredinol

| 11. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfon Davies | Cyflog Awst costau | £722.43 | £26.00<br>£7.00<br>£28.80<br>£55.55<br>£69.00<br>£40.18<br>£14.99 | £963.95 | £298.60 | | £665.35 |

12. **Menter Cwm Gwendraeth Elli** **£50.00** Rhodd (gweler eitem 10.2)
13. **Cerebral Palsy Cymru** **£25.00** Rhodd (gweler eitem 10.1)

**13. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nododd y Clerc y materion canlynol oedd wedi adrodd i’r Cyngor Sir:
    a. Tyllau archwilio rhydd yn Idole.
    b. Tipio anghyfreithlon ym Maescyneiddion, Bancycapel.
2. Nododd y Cyng Tyssul Evans ei fod wedi cael grant trwy Gronfa SPF Llywodraeth y DU ar gyfer plannu bylbiau cennin pedr yn y Gymuned. Roeddynt i'w plannu mewn lleoliadau a nodwyd yn yr ardal. Diolchwyd i'r Cyng Evans am y ddarpariaeth grant hon. Bydd y Clerc yn ceisio cefnogaeth wirfoddol ar gyfer plannu mewn lleoliadau megis Tir Gof, Cae Idole ac amwynderau Cymunedol ynghyd ag ardaloedd eraill.
3. Nodwyd newidiadau pellach i lwybr bws X11, a nodwyd pryder am diffyg ymgynghori.
4. Bydd y Clerc yn ceisio diweddariad ar fater yn ymwneud â mabwysiadu Stad Maesglasnant gan y Cyngor Sir
5. Nodwyd digwyddiadau cymunedol fel a ganlyn:
    a. Sioe Llandyfaelog – 14$^{eg}$ Medi.
    b. Bingo Eisteddfod – 6$^{ed}$ Medi.
    c. Diolchgarwch Cynhaeaf – 1$^{af}$ Hydref.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 3ydd Hydref 2024.**